

Gwefan  
[www.ysgolgymraeg.com](http://www.ysgolgymraeg.com)



e-bost  
[prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk)

## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL

Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Dyfarnwyd Gradd 1 i'r Ysgol Gymraeg ym mhob un o'r saith Cwestiwn Allweddol – Estyn 2009

*Ysgol Gymraeg was awarded Grade 1 in each of the seven Key Questions – Estyn 2009*

### Clwb Brecwast – I ddisgyblion 4 – 11 oed

Mae'r ysgol wedi penderfynu sefydlu Clwb Brecwast ar gyfer disgyblion yr ysgol o 8.15 tan 8.45 bob bore (Dydd Llun i ddydd Gwener)

Y prif reswm yn yr Ysgol Gymraeg dros sefydlu'r clwb yw sicrhau gofal addas i ddisgyblion yn ystod y cyfnod cyn ysgol. Mae'n siwr eich bod yn ymwybodol fod yr ysgol yn gyfrifol am y disgyblion yn swyddogol o 8.45 y bore, serch hynny mae nifer cynyddol o rieni / gwarcheidwaid yn gadael eu plant yn yr ysgol cyn yr amser swyddogol.

Bwriad y clwb felly fydd sicrhau fod gofalaeth addas ar gael i ddisgyblion sy'n cyrraedd rhwng 8.15 a 8.45. Mi fydd **brecwast sylfaenol** ar gael yn ystafell Mr Gareth James fydd yn cynnwys sudd oren / afal, llaeth, tost a ffrwyth yn unig. Mae cyfyngiadau o safbwyt yr ystafell yn golygu na fydd modd i ni ddarparu unrhyw ddarpariaeth ehangach yn y bore.

Mae'n debygol y bydd rhai disgyblion yn cael brecwast adref fel arfer ac yna yn manteisio ar y fwydlen sydd ar gael yn yr ysgol – mae hyn yn arfer y byddem yn ei argymhell fel ysgol er mwyn sicrhau fod pob plentyn wedi cael brecwast cytbwys cyn cychwyn ar weithgareddau'r ysgol am 9 o'r gloch.

Mi fydd yr holl blant sy'n cyrraedd yr ysgol rhwng 8.15 a 8.45 yn cael eu cofrestru ar gyfer y clwb brecwast yn ystafell Mr James (nid oes rhaid i'r plant gymryd brecwast) ac yna mi fydd cynorthwywyr gofal yr ysgol yn sicrhau gofalaeth addas i'r disgyblion yn yr ystafell ddosbarth neu ar faes chwarae'r ysgol tan 8.45 pan fydd system bresennol gofalaeth iard yr ysgol yn parhau.

NI DDYLAI UNRHYW BLENTRYN GYRRAEDD YR YSGOL CYN 8.15.

NI FYDD BRECWAST YN CAEL EI WEINI AR OL 8.40 GAN EIN BOD EISIAU SICRHAU FOD POPETH WEDI EI GLIRIO ERBYN 8.45.

Mae'r ddarpariaeth yn rhad ac am ddim ac yn cael ei ariannu yn llawn gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mi fydd y Clwb yn cychwyn ar ddydd Llun, Hydref 4ydd.

Gofynnir i chwi ddychwelyd y ffurflen isod erbyn ddydd Llun er mwyn i ni gael syniad clir o'r niferoedd fydd yn dymuno cymryd mantais o'r trefniant newydd yma.

**R C Williams.**

---

### Ffurflen Ymateb Clwb Brecwast

Enw'r Plentyn \_\_\_\_\_

Dosbarth \_\_\_\_\_

Mi fyddem yn dymuno defnyddio gwasanaeth y Clwb Brecwast ar y diwrnodau canlynol;

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
Anghenion dietegol arbennig				Arwyddwyd rhiant / gwarcheidwad.

Gwefan  
[www.ysgolgymraeg.com](http://www.ysgolgymraeg.com)



e-bost  
[prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk)

## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL

Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Dyfarnwyd Gradd 1 i'r Ysgol Gymraeg ym mhob un o'r saith Cwestiwn Allweddol – Estyn 2009

*Ysgol Gymraeg was awarded Grade 1 in each of the seven Key Questions – Estyn 2009*

### **Breakfast Club – For pupils aged 4 - 11**

The school has decided to provide a Breakfast Club for pupils from 8.15 -8.45 every morning (Monday to Friday). The main reason for setting up the Club at Ysgol Gymraeg is to ensure appropriate care for pupils during the period before school starts. As you are aware, the school is officially responsible for children from 8.45 in the morning, despite this, a substantial number of parents/ guardians are leaving their children in the school before the official opening time.

The Club's aim will be to ensure appropriate care for pupils who arrive at school between 8.15 and 8.45. A basic breakfast will be available in Mr. Gareth James class, which will include orange/apple juice, milk, toast and fruit only. The restrictions in relation to the room will mean that we can't provide a more extensive breakfast.

It is likely that pupils will have had breakfast at home and then take advantage of the breakfast service available at school – this is a practice that we as a school will encourage, to ensure that each child has a balanced breakfast before they start their daily activities at school at 9 o 'clock.

Every child that arrives between 8.15 and 8.45 will be registered for the breakfast club in Mr. James classroom (your child does not have to eat breakfast) and then the Care Assistants will ensure appropriate care for children in the classroom or on the playground until 8.45 when the present system will continue.

**PUPILS SHOULD NOT ARRIVE AT SCHOOL BEFORE 8.15.**

**BREAKFAST WILL NOT BE SERVED AFTER 8.40 AS WE WILL NEED SUFFICIENT TIME TO CLEAR THE CLASSROOM BY 8.45.**

The service is free of charge and is funded entirely by the National Assembly Government. The Club will commence on Monday, October 4<sup>th</sup>.

We kindly ask you to complete and return the attached form by Monday so that we can have a clear idea of the numbers that wish to take advantage of this new service.

**R C Williams.**

---

#### Breakfast Club Response Form

Child's name \_\_\_\_\_

Class \_\_\_\_\_

I would wish to use the Breakfast Club service on the following days;

Monday	Tuesday	Wednesday	Thursday	Friday
Special dietary needs.				Signed Parent / Guardian